

Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn croesawu cynnydd ar fodel gwyliadwriaeth wedi'i foderneiddio

Ddydd Mercher, 18 Tachwedd, cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar fodel gwyliadwriaeth wedi'i foderneiddio yr ASB gan y Cyfarwyddwr Bod yn Agored, Digidol a Data, Cymru a Gwyddoniaeth, Julie Pierce.

Esboniodd Julie sut mae gwyliadwriaeth, sy'n effeithio ar bob rhan o'r sefydliad, o ymateb i Covid-19 i baratoi ar gyfer diwedd Cyfnod Pontio'r Undeb Ewropeaidd, mae'r gwasanaeth yn arfer p?er gwyddor data i nodi risgiau bwyd sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt ddod yn risgiau i iechyd y cyhoedd. Bydd hyn yn caniatáu i'r ASB, ac eraill, wella dulliau tuag at risgiau bwyd i ddefnyddwyr o ran diogelwch, dilysrwydd a sicrwydd.

Trafododd y Bwrdd rannu data, a sut y gall yr ASB wella gweithdrefnau, wrth ddiogelu ei hun rhag ymdrechion i ddefnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chyhoeddi yn faleisus. Erbyn hyn mae rhagor o randdeiliaid yn cyfeirio at ddangosfyrddau gwybodaeth yr ASB yn ogystal â chyfrannu atynt, gan helpu i greu darlun mwy cyflawn.

Meddai Cadeirydd yr ASB, Heather Hancock:

“Rydym ni wedi gweld datblygiadau cyffrous yn y maes hwn. Mae eisoes yn cyfrannu at gryfhau ein henw da rhyngwladol, ein proffil, ein perthnasoedd a'n gallu i ddylanwadu. Mae gwyliadwriaeth yn faes gwaith pwerus i ni, o ran diogelu'r cyhoedd a helpu busnesau i'w chael yn iawn.”

Diweddarwyd y Bwrdd hefyd ar sut mae'r system samplu gyfredol yn gweithio a sut yr hoffai'r ASB iddi ddatblygu.

Roedd trafodaethau'n ystyried a fyddai diwedd y Cyfnod Pontio yn effeithio ar allu'r ASB i gael mynediad at labordai sy'n prosesu samplau, a ph'un a all yr ASB gael mynediad ehangach at samplu a wneir gan fusnesau bwyd eu hunain. Wrth drafod gallu labordai i brosesu samplau, clywodd yr aelodau fod gwahaniaeth rhwng gallu a gallu labordy, a'i bod yn haws i labordy luosi faint o brofion y mae'n eu gwneud na arallgyfeirio i rai newydd.

Ar y cyfan, roedd y Bwrdd yn cydnabod faint o gynnydd a wnaed yn y maes hwn, yn cymeradwyo'r dull yn y dyfodol o fynd i'r afael â'r fframwaith samplu ac yn cytuno i'r cynigion ar gyhoeddi enwau brand mewn arolygon samplu'r ASB lle bo hynny'n berthnasol i'r diben.

Mae fideo llawn o [gyfarfod y Bwrdd ar gael i'w wylio nawr](#).